# y DINESYDD

SWYDDI AR DUD. 12-13!

MAI 1995 | "LLAIS Y GYMUNED" | RHIF 208

PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH


# Y Genedlaethol 2000: Her i'w hwynebu

EISTEDDFOD 2000 YNG NGHAERDYDD?

Fe fydd 8 Gorffennaf yn ddiwrnod tyngedfennol i drigolion y ddinas. Dyma pryd y bydd Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol yn penderfynu ble fydd Eisteddfod 2000 yn mynd, i Dyddewi, i Lanelli neu i Gaerdydd.

Er diwedd 1993 mae Is-bwyllgor Marchnata'r ddinas wedi bod yn profi'r dŵr ac mae swyddogion yr eisteddfod wedi dweud wrtho beth yw anghenion yr ŵyl.



Llun: Robin Griffiths

*Rhan o Feysydd Pontcanna. Cartre i Eisteddfod Genedlaethol 2000?*

Mae'n dymuno cael lle canolog i ddechrau, nid rhyw "Eisteddfod Pen-twyn a'r Cylch" fel a fu yn 1978. Ond dydy hyn ddim yn amhosibl. Yn ôl Cyngor y Ddinas, mae digon o le ym meysydd Pontcanna ar gyfer y rhan fwyaf o'r ŵyl.

Mae lle yno i'r maes ei hun, maes carafanio ar gyfer tuag 800 o garafannau, a'r maes ieuenctid. Ond fe fydd angen parcio'r ceir a'r bysys (tua 50 y dydd) mewn mannau eraill a defnyddio'r dull parcio-cludo fel sy'n digwydd ar hyn o bryd yn ystod y Nadolig. Mae'n bosib torri i mewn i'r tir (ar gyfer yr holl drafnidiaeth) mewn man gyferbyn â thafarn yr Half way.

Mae angen tua 130 erw o dir ar yr ŵyl erbyn hyn. Mae angen llawer o arian arni hefyd. Fe gostiodd gŵyl 1978 tua £5m (ac fe wnaeth £25,000 o golled), ond bydd eisteddfod 2000 (os daw) yn costio o leiaf £17m, a bydd disgwyl i drigolion y ddinas gasglu tua £200,000, tua £12 y pen; her mae'n siwr, ond her i'w hwynebu. **D**

## Diffyg cynllunio'n peri poen

GAN **GWILYM ROBERTS**

Oherwydd diffyg strategaeth a chynllunio ymlaen llaw mae Pwyllgor Addysg De Morgannwg wedi codi nyth cacwn unwaith eto drwy beidio darparu digon o leoedd i blant cylchoedd meithrin ardal Treganna sy eisiau mynediad i'r Ysgol Gymraeg fis Medi nesa.

Cyn y Pasg derbyniodd y rhieni lythyrau gan yr Awdurdod yn eu hysbysu lle bydd eu plant yn mynd. Roedd nifer sylweddol yn mynd i ysgolion mewn rhannau eraill o'r ddinas.

Mae hyn wedi cynddeiriogi rhieni ac mae nifer o'r rhai di-Gymraeg yn dechrau meddwl mai camgymeriad oedd dewis addysg Gymraeg i'w plant.

☛ *parhad ar dud 2*

## TU MEWN I'CH DINESYDD...


| | |
|---|---|
| Eisteddfod y Dysgwyr - adroddiad | 2 |
| Cydymdeimlo | 6 |
| Colli plentyn: Gwennan Haf | 7 |
| Nodwedd: Amlieithydd o Sisili | 8 |
| Ysgolion | 10 |
| Dysgu Cymraeg | 11 |
| Cymry ar waith | 12 |
| Chwaraeon | 14 |
| Croesair | 16 |

# Diffyg cynllunio

☛ *parhad o dud 1*

Mae hon yn broblem, sy'n mynd yn ôl at ddyddiau Bryn-taf, yr Ysgol Gymraeg gyntaf. Problem llwyddiant yw hi a heddiw mae deg ar hugain o gylchoedd ar waith yn y ddinas heb sôn am gylchoedd Ti a Fi.

Bob Hydref mae'r Pwyllgor Addysg yn gofyn i'r Mudiad Ysgolion Meithrin am niferoedd y plant sydd yn y cylchoedd ond hyd yn oed â'r wybodaeth angenrheidiol ganddo methiant fu'r cynllunio ymlaen llaw. Dyw bysio plant ar draws y ddinas ddim yn ateb i'r broblem a rhaid i'r Awdurdod ehangu addysg Gymraeg ymhob sector drwy'r ddinas yn ystod y misoedd nesaf.

Ar hyn o bryd y prif waith yw rhoi ystyriaeth eto i broblem ardal Treganna a cheisio dod o hyd i ateb fydd yn plesio'r rhieni. Rhaid i'r Pwyllgor Addysg sylweddoli na fydd y broblem yma'n diflannu. Mae'n rhaid iddo wneud rhywbeth yn fuan!

**D**


## y DINESYDD

Mai, 1995. Rhif 208.

Cyhoeddir y Dinesydd gyda chymorth Cyngor y Celfyddydau a'r Swyddfa Gymreig. Fe'i dyluniwyd gan Newsline, Caerdydd, ac fe'i argraffwyd gan CIT Printing Services, Hwlffordd.


### CWRDD BLYNYDDOL Y DINESYDD

Cynhelir hwn eleni yn skittle alley tafarn Halfway, Heol yr Egwlys Gadeiriol, ar 25ain o Fai am 7.30pm. Ynddo ceir adroddiad ar waith y flwyddyn ac etholir swyddogion newydd. Mae croeso i unrhwy un fod yn bresennol i ddweud ei ddweud. Cofiwch mai eich papur chi yw'r Dinesydd.

**John Rowlands, Cadeirydd**
**Mary Jones, Ysgrifenyddes**

### Y TÎM GOLYGYDDOL

Bydd angen y deunydd ar gyfer Dinesydd Mehefin erbyn 10 Mai.

Anfonwch unrhyw ddeunydd at y tîm golygyddol fel a ganlyn:

**Mr B D Harries**, 6 Lakeside Drive, Caerdydd (756562): newyddion byd addysg

**Mr Wyn James**, 16 Ffordd Kelston, Caerdydd (628754): newyddion yr Eblwys Newydd

**Mr W J Jones**, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (756282): cyffredinol

**Mr Gwilym Roberts**, 6 Heol Wen, Caerdydd (693254): newyddion am bopeth

Anfonwch newyddion am chwaraeon at:

**Mr Tom Davies**, 41 Highfields, Caerdydd (564540)

Anfonwch newyddion yr eglwysi at:

**Y Parchedig Gwilym Davies**, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd (626811)

### HYSBYSEBION

Mae'r Dinesydd yn ffordd ddelfrydol i gyrraedd sylw pobl Caerdydd a'r cylch. Os am hysbysebu, byddwch gystal a chysylltu â **Mr Tim Pearce, Newsline, 24 James Street, Caerdydd CF1 6EX. Ffôn 452383 Ffacs 487220.**

### DIWEDD Y GAN...

Gwyddoch bod y Dinesydd yn dibynnu ar ein hysbyswyr, sy'n haeddu eich cefnogaeth, yn agystal ag ar grantiau ac arian gan gymdeithasau ac unigolion.

Diolchwn y mis hwn am gyfraniad o £25 gan Gymdeithas Gymraeg dinas Powys. Gwerthfawrogwn gyfraniadau bob amser. Anfonwch unrhyw rodd at ein trysorydd:

**Mr Aled Williams, Rhos-y-grug, Pen-twyn, Radur, Caerdydd CF4 8RE**

# Eisteddfod Flynyddol y Dysgwyr

CYNHALIWYD Eisteddfod Flynyddol y Dysgwyr ar 5 Ebrill yng Nghanolfan yr Urdd. Roedd dros gant o bobl wedi dod ynghyd i fwynhau'r cystadlu. Dyma'r ddeunawfed eisteddfod i gael ei chynnal a'r ysgrifennydd diwyd yw Falmai Griffiths, Rhiwbeina.

Y beirniaid eleni oedd Iwan Guy (Cerdd), Mallt Anderson (Adrodd), Islwyn Jones (Llên) Luned Davies-Scott (Coginio) ac Anthony Evans (Celf a Chynllunio). Y Llywydd Anrhydeddus oedd Chris Rees a'r arweinwyr llwyfan oedd Adrian Price a Rhiannon Rees.

Cafwyd seremoni anrhydeddu'r prif lenor urddasol dan arweiniad Basil Davies. Y ffanfferwr oedd Alun Griffith a hebryngwyd yr enillydd i'r llwyfan gan Kenneth a Patricia Sedgebeer a'r cyfeilydd oedd Grev James. Canmolodd y beirniad safon y gystadleuaeth a dyfarnwyd mai Karin Currie o'r Gadlys, Aberdar, oedd yn haeddu tlws yr eisteddfod, sef plat o grochenwaith a

**y DINESYDD**

**EISTEDDFOD DYSGWYR DE MORGANNWG - NOSON WYCH ELENI ETO!**

wnaethpwyd gan Molly Curley. Mae Karen yn dilyn cwrs gradd mewn astudiaethau cyfun ym Mhrifysgol Morgannwg. Mae un o'i phlant yn Ysgol Gyfun Rhydfelen a'r llall yn Ysgol Gymraeg Aberdar. Dysgodd Gymraeg yn Nhafarn Bodwigiad, Hirwaun a'i thiwtor oedd ei gŵr Andrew. Yr ail yn y gystadleuaeth oedd Sara Rudolff Griffiths o Brifysgol Morgannwg a'r trydydd oedd Colin Sparks o Gyngor Taf Elái.

Ar ddiwedd y noson cyflwynwyd Cwpan yr Eisteddfod i'r ganolfan uchaf ei marciau i Brifysgol Morgannwg. Daeth PACE Pontypridd yn ail, Canolfan Palmerston y Barri yn drydydd a Dysgwyr Bargoed yn bedwerydd.

**D**

# Bar i bawb

YN DDIWEDDAR adnewyddwyd Ystafell y Lolfa yng nghanolfan yr Urdd yn far dialcohol ar gyfer aelodau'r Urdd dan Nawdd Ffilmiau Apollo ar gyfer rhaglen nos Sadwrn, 'Penwythnos Mawr'. Trawsffurfiwyd Y Lolfa i fod yn lliwgar, glân a moethus. Cafwyd cadeiriau, carped a goleuadau newydd, cot o baent, newidiadau i'r bar, gemau fideo a stereo, posteri i'r waliau a stoc o ddiodydd dialcohol.

Gwariwyd dros £2000 gan Ffilmiau Apollo ar y newidiadau, a hynny mewn ychydig ddyddiau, gyda chymorth pobl ifanc yr Uwchadran o Flynyddoedd 7 ac 8 Ysgol Glan-taf. Ffilmiwyd y cyfan ar gyfer 18 Mawrth 1995. Mae pennaeth Ffilmiau Apollo, Mr Paul Jones, yn un o blant yr Aelwyd.



*Rhai o'r gweithwyr ar fin torri syched*

# Ymdaith y glowyr

DYDD Sadwrn 1 Ebrill fe fu gorymdaith cyn-lowyr a'u teuluoedd trwy Gaerdydd i Neuadd y Ddinas i ryddfraint y ddinas gael ei chyflwyno iddyn nhw ac i NUM De Cymru er mwyn cydnabod pwysigrwydd y diwydiant glo yn nhwf a ffyniant dinas Caerdydd. Yn 1951 roedd 110,000 o lowyr yn gweithio ym mhyllau glo De Cymru ond erbyn hyn, does ond 700 ar ôl. Cyflwynwyd y sgrol er anrhydedd i George Rees gan y Cynghorydd Ricky Dimonde, Arglwydd Faer y ddinas.

# Sioe gerdd

PERFFORMIWYD sioe gerdd, 'Pum Diwrnod o Ryddid' gan ddisgyblion Ysgol Gyfun Glan-taf yn neuadd yr ysgol ar 4,5, 6 Ebrill. Fe'i cynhyrchwyd gan Delyth Medi, Elspeth Hughes ac Alun Guy. Cymerwyd y prif rannau gan Branwen Gwyn, Catrin Haf Williams, Bethan Clement, Sion Tudur, Rhodri Llywelyn, Iolo Evans a Gethin Clifford Jones.

Roedd ôl paratoi manwl a graen ar y perfformiadau bob nos ac mae safon y cynhyrchiad yn gryn glod i'r ysgol.

# Noson Gymreig

CYNHALIWYD Noson Gymreig gan Gôr Ffilharmonig Caerdydd dan arweiniaid Alun Guy yn Neuadd Gerdd y Brifysgol yn Heol Corbett ar nos Sadwrn 29 Ebrill. Yr unawdwyr oedd Delyth Medi ac Iwan Guy. Ymddangosodd y grwp, 'Y Cwlwm' hefyd ar y rhaglen. Cyflwynydd y noson oedd Meinwen Guy.

# Colled i'r holl fyd

WRTH inni gofio am y rhai cyntaf o'r Gwersylloedd Crynhoi, gwersylloedd rhyfel erchyll Yr Almaen, yn dod i ben hanner canrif union yn ôl, fe wahoddwyd y Parchedig Ddoethor T.J.Davies i annerch ar Dietrich Bonhoeffer i Gyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd.

Gwyddom am ddoniau "TJ" fel awdur a darlledydd ac ni chafodd y gynulleidfa o dros ddeg ar hugain a ddaeth ynghyd i Eglwys Dewi Sant ar noson ddrycinog mo'i siomi. Mae'n adnabod yr Almaen yn dda ac roedd ei sylwadau ar ei bwnc yn fywiog a chraff.

Clywsom i Bonhoeffer, fel miliynau o rai o'i flaen, golli ei fywyd ar 9 Ebrill 1945, yn union ar derfyn yr Ail Ryfel Byd ac yntau'n 39 oed.

Fe'i ganwyd yn 1906 a symudodd y teulu i Berlin pan oedd yn ifanc. Cyfarwyddwr Adran Seiciatryddol oedd ei dad a bu ei fam yn dysgu adnodau ac emynau i'r plant. Er ei fod yn fachgen swil a mewnblyg ei nod oedd astudio diwinyddiaeth. Chwiliai am y wir Eglwys.

Roedd yn berson galluog a dewr a chanddo feddwl treiddgar. Bu ei farw'n golled i'r holl fyd.

# Ebeneser, Heol Siarl

Ar bnawn a nos Sadwrn 1 Ebrill, cynhaliwyd oedfaon sefydlu a phregethu i groesawu'r Parchedig Ddoethor a Mrs Alun Tudur, gynt o Wrecsam, i weinidogaethu yn Eglwys Ebeneser a Chaerdydd. Croeso cynnes a phob dymuniad da i'r ddau ohonoch yn eich cartref newydd ac yng nghymdeithas yr Eglwys yn Ebeneser.




# Ffordd newydd wnaed

NOS WENER 24 Mawrth cynhaliwyd Cinio Mawreddog i bedwar cant o wahoddedigion yn ardal Bae Caerdydd i ddathlu agor y twnnel sy'n rhan o ffordd gyswllt Butetown. Cyflawnwyd y seremoni agoriadol ar fore Sadwrn 25 Mawrth gan Neil a Glenys Kinnock. Disgwylir y bydd dros chwarter miliwn o gerbyndau yn defnyddio'r ffordd yma. Fe gostiodd y ffordd, sy'n 757 o lathenni o hyd, tua £135 miliwn. Fe'i hystyrir yn dipyn o gamp peirianyddol ac yn bluen yn het y ddinas a'r Cwmni Adeiladu D.M.D.

# Cymdeithasau'n cymdeithasu

NOS LUN 3 Ebrill ymwelodd Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys â Chymdeithas Gymraeg Rhiwbeina a chafwyd noson hwyliog o amrywiaeth o gwisiau dan arweiniad Gwilym Roberts. Bydd Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina yn mynd ar daith i'r Fro yng nghwmni Vincent Phillips ar nos Lun 5 Mehefin. Eleni cynhelir eu swper pentymor yn nhafarn Hollybush, Coryton ar 3 Gorffennaf. Gellir cael rhagor o fanylion am y cymdeithasau gan Haydn Jones (Ffon: 620487).

# Llenni yn agor

MAE siop Dan Evans Y Barri wedi noddi llenni newydd i Ysgol Melin Gruffydd trwy eu cynnig i'r ysgol am bris gostyngol. Yn ddiweddar hefyd cafwyd nawdd gan gwmniau Derwen, Sblash ac Opus i brynu gwisgoedd newydd ar gyfer y timau pel-droed a rygbi. Mae'n dda gweld busnesau'n cefnogi'r ysgol fel hyn.

# Gaeaf cyffrous

BU DECHRAU'R gaeaf eleni yn amser cyffrous yn hanes Valmai Evans, Heol Don. Ganed ei hŵyr cyntaf, sef Owain Sion Brynach, i Dr Huw Owain a Gillian sydd yn byw ar hyn o bryd yn Nhrefach, Felindre. Yna, bythefnos yn ddiweddarach, fe briododd brawd Huw Owain, Dylan Wyn a Christine Lacey yn Hinckley, Swydd Gaerlyr. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yn Heol Heathfield, Gabalfa.

# Cylchgrawn newydd

YN DDIWEDDAR ymddangosodd rhifyn cyntaf cylchgrawn newydd ar gyfer Cymry Cymraeg sy'n ymwneud â masnach a busnes, *Busnesu*. Fe'i sefydlwyd gan gwmni Premiere Cymru/Wales, Aberystwyth mewn cysylltiad a'r mudiad Menter a Busnes. Golygydd y cylchgrawn yw Sion Jobbins, mab Alan a Cath Jobbins, Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd.

# Gwasanaeth teulu

CYNHALIWYD Gwasanaeth i'r Teulu fore Sul, 26 Mawrth ym Methel, Rhiwbeina, o dan ofal Mrs Tasmin Llwyd Graves. Cymerwyd rhan gan nifer o'r plant a pharatowyd te gan bobol ifanc capel ar ôl y gwasanaeth. Bwriedir cynnal gwasanaeth teuluol yn fisol o hyn ymlaen ac mae croeso i bawb.

# Warden y Ficer

LLONGYFARCHION i Mr Islwyn Jenkins 8, Mavis Grove, ar ei benodiad yn Warden y Ficer, Eglwys Dewi Sant, Caerdydd, ac i Mrs Falmai Griffiths ar gael ei phenodi'n Warden y Bobl.


GWYL BANC MAI 29

SBWRIEL/AILGYLCHU

CAERDYDD

ENVIRONMENTAL SERVICES

**Gofynnir i chwi gymeryd sylw arbennig o'r newidiadau, sydd yn nhrefn y dyddiadau casglu sbwriel (a'r sachau ailgylchu os yn briodol), o achos yr ŵyl.**

| Eich Casgliad Arferol | | | Trefniadau Casglu Dros Dro | |
|---|---|---|---|---|
| Dydd Llun | **29ain o Fai** | yn newid i | Ddydd Mercher | **31ain o Fai** |
| Dydd Mawrth | **30ain o Fai** | yn newid i | Ddydd Iau | **1af o Fehefin** |
| Dydd Mercher | **31ain o Fai** | yn newid i | Ddydd Gwener | **2il o Fehefin** |
| Dydd Iau | **1af o Fehefin** | yn newid i | Ddydd Sadwrn | **3ydd o Fehefin** |
| Dydd Gwener | **2il o Fehefin** | yn newid i | Ddydd Sul | **4ydd o Fehefin** |

***Gofynnir i chwi roi eich sbwriel tu allan i'r tŷ naill ai'r noson cyn eich dyddiad casglu newydd neu cyn 7.15am fore'r casgliad ei hun.***

**Gofynnir i fasnachwyr sydd â chytundeb gyda'r Cyngor gadw'r sbwriel o fewn yr adeiladau hyd y casgliad nesaf.**

**Dylai'r rhai hynny sydd yn derbyn gwasanaeth clinigol nodi bydd y trefniadau uchod yn berthnasol hefyd.**

**Bydd safle gwaredu sbwriel Lamby Way ar gau ar Ddydd Llun 29ain o Fai.**

**Bydd holl storfeydd glanhau y Cyngor ar agor fel arfer dros y gwyliau.**

FFONIWCH ☎ CAERDYDD 822110
GYDAG UNRHYW YMHOLIADAU GLANHAU

# Ysgoloriaeth



Llun: Robin Griffiths

LLONGYFARCHION i Mererid Michael (chwith), Alltywennol, Llanbedr-y-fro, disgybl yn Ysgol Gyfun Glantaf, ar ennill Ysgoloriaeth Evan Morgan, Coleg y Brifysgol, Aberystwyth. Ei bwriad yw mynd i'r Coleg ger y Lli yn yr Hydref i ddarllen Cymraeg - a chyfrannu'n llawn at y bywyd cymdeithasol, wrth gwrs.

# Cyntaf i'r Felin

GWNAETH Ysgol Melin Gruffydd yn dda yn Eisteddfod Sir yr Urdd gan gipio gwobr gyntaf gyda'r Parti Deulais, y Grwp Llefaru, y Grwp Offerynnol, y Parti Cerdd Dant a'r Grwp Dawnsio Disgo. Cafodd sawl ail a thrydedd wobr yn ogystal.

Dymunir pob lwc i bawb yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

# Ennill medal

LLONGYFARCHION i Ellis Roberts, Llwynfedw, ar ennill Medal Mrs Doris Evans Bevan sy'n cyfateb i Fedal Gee am ei ffyddlondeb yn yr ysgol Sul. Mae ein aelod ffyddlon a gweithgar yng Nghapel y Crwys.

# Is-lywydd

LLONGYFARCHION i drysorydd Eglwys y Tabernacl a thrysorydd Undeb Annibynwyr Cymru, Mr Illtud Lloyd a ddewiswyd yn ddiweddar yn is-lywydd Undeb Bedyddwyr Cymru 1995-96.

# Llywydd U.C.A.C. am 1995-86

LLONGYFARCHION i Jenni Jones-Annets, Tredelerch, ar gael ei hurddo'n Llywydd U.C.A.C. am 1995-96 ar 5 Mai yn ystod y Gynhadledd Flynyddol yn Llanberis. Mae hi'n athrawes y Gymraeg yn Ysgol Uwchradd Willows ers llawer blwyddyn ac yn enedigol o Rosllannerchrugog. Mae wedi bod yn weithgar iawn gyda'r Undeb a hefyd gyda Mudiad CYD De Morgannwg. Pob lwc iddi yn ystod ei llywyddiaeth.

# Rhedeg ras

LLONGYFARCHION i Bethan Powell, athrawes Almaeneg yn Ysgol gyfun Glantaf ar gyflawni'r gamp o redeg ras farathon Llundain ar 20 Ebrill i godi arian at apêl Tŷ Hafan. Cwblhaodd y pellter mewn pedair awr. Da iawn. Ymlaen y bo'r nod!

# Prifathro

LLONGYFARCHION i Mr Huw Thomas, Prifathro Ysgol Gyfun Ddwyieithog, Cwm Rhymni, ar gael ei benodi'n ddiweddar yn brifathro Ysgol Glantâf, i olynu Mr Malcolm Thomas. Ceir mwy am Mr Thomas yn un o rifynnau nesaf y Dinesydd.


celtic
HENDERSON CROSTHWAITE

**RHEOLWYR BUDDSODDI ANNIBYNNOL**
**Yr enw newydd ym myd Broceriaid Stoc yng Nghymru**

***Ym meddwl buddsoddi?***

***Am gyngor di-duedd dewch at yr annibynwyr!***

***Cysylltwch â Howard Bailey***

**24, Ffordd yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF1 9RW**
**ffôn (01222) 394021/6 ffacs (01222) 228452**

**Mae Celtic Henderson Crosthwaite yn enw masnachol Henderson Crosthwaite Cyf. Mae Henderson Crosthwaite Cyf yn aelod o grŵp ccc Guinness Mahon Holdings, yn aelod o Awdurdod Gwarannau a Dyfodolion ac hefyd yn aelod o Gyfnewidfa Stoc Llundain**

# CYDYMDEILO

## Marw Glyn Jones, y llenor




ESTYNNWN ein cydymdeimlad a theulu Dr Glyn Jones, Manor Way, y llenor aír bardd Eingl-Gymreig a fu farw yn gynnar yn Ebrill ac yntau wedi cyrraedd ei 90 oed. Gwelid ef yn aml yn y Cylch Llyfryddol; yn wir, ef oedd un o'r aelodau selocaf. Roedd yn enedigol o Ferthyr Tudful ond treuliodd lawer o'i oes yng Nghaerdydd gan ddilyn gyrfa fel athro yn un o ysgolion y ddinas. Collodd ei swydd fel athro am ychydig yn 1941 oherwydd ei safiad yn erbyn y rhyfel. Bu'n llywydd yr Academi Gymreig a chafodd Ddoethuriaeth er anrhydedd Prifysgol Cymru. Ei gyfrol o ysgrifau, The Dragon Has Two Tongues a gyhoeddwyd yn 1968 yw un o'r astudiaethau gorau a gafwyd i lenyddiaeth Saesneg Cymru.

Roedd ei ffydd yn bwysig iddo ac roedd yn aelod ffyddlon yng Nghapel Minny Street a bu'n ddiacon yno ar un adeg.

Cydymdeimlir yn ddwys a'i weddw, Doreen.

---

## Marw Mrs Perrie Williams

YN gynnar yn Ebrill bu farw Mrs Perrie Williams yn Ysbyty Felindre ar ol dioddef aficheyd blin. Roedd hi'n weddw i'r diweddar Alun Williams, a wnaeth gymaint i lonni'r genedl pan oedd gyda'r BBC. Cydymdeimlir yn ddwys â Rhys, Eli a Nia a'r wyrion a'r wyresau yn eu galar o golli mam a nain oedd mor annwyl iddyn nhw.

---

## Colli Mrs Susannah Morgan

A HITHAU'N 95 oed, bu farw Mrs Susannah Morgan, yng Nghartref Nyrsio Min-y-llyn. Bu'n byw ym Mrynaman am flynyddoedd ac yno'r oedd ei gwreiddiau. Cydymdeimlwn ag Enid, Roy, Rhys a Gwenda (sy'n byw yn Rhiwbeina) yn eu profedigaeth, a hefyd a'i hwyres Eleri sy'n gweithio gyda'r BBC. Dymuna'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeim-

## Colli athro ysgol, Elfryn Grant

AR 22ain Mawrth, yn Eglwys Dewi Sant, bu angladd Elfryn Grant, ac yntau'n 69 oed.

Brodor o Gwm Rhymni oedd Mr Grant. Fe'i haddysgwyd yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, a threuliodd lawer o'i yrfa'n bennaeth Adran Daearyddiaeth Ysgol Ramadeg Yr Eglwys Newydd.

Gwr a hoffai'r encilion oedd e, bob amser yn wylaidd a diymhongar. Golygai ei eglwys gryn dipyn iddo a byddid yn ei weld yn aml yng ngwasanaeth cymun wyth ar fore Sul. Mae ein cydymdeimlad dwys gyda Mair, ei weddw, a Fiona'i ferch.

---

## Marw George F. Jacques

AR 28 Mawrth bu farw George Jacques, Heol Kelston yn 83 oed wedi rhai misoedd o salwch. Brodor o Gaerfaddon oedd yn wreiddiol ond treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yng Nghaerdydd. Oherwydd ei allu fel tiwniwr pianos bu galw am ei wasanaeth dros y blynyddoedd gan gyrff megis y BBC, Neuadd Dewi Sant a'r Amgueddfa Werin, yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Hyd ryw ddwy flynedd yn ôl teithiai'n gyson ar hyd a lled Cymru wrth ei waith. Er na fedrai'r Gymraeg gwnaeth gyfraniad pwysig i'n diwylliant tu ôl i'r llenni. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu yn ei golled.

---

## Colli Haydn Thomas

AR ddiwedd Mawrth, bu farw Haydn Thomas, Jellicoe Gardens, gwr oedd a'i wreiddiau yng Nglyncorrwg. Cyn ymddeol, bu'n gweithio am flynyddoedd i'r Bwrdd Glo. Mae ein cydymdeimlad dwys gyda Menna'i weddw, y plant, Iwan a Ceri a gweddill y teulu.

---

## Colli mam

CYDYMDEIMLIR ag Eluned Bush, Heol San Mihangel, ar ei phrofedigaeth o golli ei mam yn ddiweddar.

# Colli plentyn

**Gyda thristwch mawr y clywsom am farwolaeth Gwennan Haf, merch Non a Steve Wilshaw'n ddiweddar a hithau'n bump oed. Dyma ran o deyrnged ei gweinidog, Y Parchedig Ieuan Davies iddi ar ddydd ei hangladd.**

Sadwrn cynta'r gwanwyn, er mawr dristwch i mi, darllenais yn y Western Mail, "yn dawel, ar ol brwydr ddewr, Gwennan Haf yn bump oed." Ei geiriau olaf i mi oedd, "Allet ti neud llun?" Er nad artist mohonof, ac er gwaetha'r hiraeth dwfn amdani, hawdd yw ufuddhau heddiw ar ddydd ei harwyl.

Gallaf ddechrau gyda lluniau ei henw. Enwau'r golau dydd a'r heulwen a roed iddi. A do, daeth â gwên a haf i fywydau cynifer ohonom. Yn ei henw llawn, Gwennan Haf Gwyn Wilshaw, a'i bywyd llon, clymwyd dau deulu'n annatod mewn cariad; cariad at Gwennan a thuag at ei gilydd. Cariad sy'n dyfnhau.

Am fod y capel a'i addoliad a Minny Street a'i gymdeithas yn bwysig i'r teulu, fe ddeuai Gwennan fach i'r cwrdd yn aml. Gwelaf lun ohoni nawr yn gorwedd yn y cot bychan yn yr ale, neu ar y sedd, wrth ochr Dat-cu, neu'n sefyll ar y sedd rhwng Mam-gu a Dat-cu yn gwylio'r pasiant. Gwelaf hi'n rhedeg i'r Gorlan ac yna, wedi Oedfa Bregethu'r Nadolig - a hithau a'r teulu'n ol gartre y "Cyhudd" (cartre Aled a Menna) o Southend bell - yn dod o lofft y capel i'm cyfarch yn y cyntedd a choflaid ei chariad. Ddydd priodas ei mam, Non a Steve, a hithau'n paratoi ei hun i ddod i'r capel, dwedodd Dat-cu wrthi, "Rwyt ti'n bert". Atebodd hithau, "Ddim 'to." Dwedodd y gwir am bawb ohonom. "Ddim 'to." " O enau plant bychain..."

A hithau'n dathlu ei phen blwydd yn bump oed, a'r haul yn ei anterth, ymddangosodd cysgodion yn y "llun", ond daliodd cariad i lewyrchu. Yn Great Ormond Street, *The Hospital for Sick Children* gofynnwyd iddi a wyddai ble'r oedd ac atebodd hithau, *"The hospital for six children*, ond ma' mwy na whech ohonon ni yma." Cofiai hi am yr eraill oedd yno gyda hi, a chofiai ei hanwyliaid yr eraill yn ogystal. Ac y maent yn dal i'w cofio heddiw. Dyna pam fod y rhoddion er cof am Gwennan yn cael eu cyfeirio at hybu elusennau i blant sy'n dioddef canser. "Pasa fe rownd" oedd ei gair hi. Ac ryn ni'n ceisio gwrando arnat ti, Gwennan fach!

Ar ddiwrnod braf ym Mawrth penderfynais alw i weld a garai Gwennan ddod am dro bach. Er ei bod yn gwylio'i hoff "Aladdin" ar y teledu, ac er ei gwaeledd, bodlonodd ar unwaith. Yn y car cawsom sgwrsio'n dau "heb neb ond Duw" a ninnau ynghyd "yn y gyfrinach fwyn". Roedd Gwennan mor synhwyrol o ddoeth, a'r fath gof ganddi. O'r sedd gefn tynnodd lun geiriol o Cai, ei brawd bach. Meddai'n dyner, "Ma gwallt Cai mor sofft, yn sofft fel plufyn." Ac myntwn i amdani hi o dan f'anal: O! Y fath botensial".

Ei dyhead olaf oedd cael "mynd i rywle sbesial," ac ar gerdyn Non a Steve ar flodau ei harch roedd y geiriau, "Fe gest ti fynd i rywle sbesial". Ac Aled sy'n crynhoi lluniau'r albwm gyda'i englyn:

*O'i geni fe fu Gwennan - yn enaid*
*Annwyl a dihunan;*
*Mae 'na faich am un fechan*
*Er y loes fe ddown i'r lan.*


## Dyma fel y canodd ei chefnder, TUDUR DYLAN JONES, iddi...

Ddoe'n ol, ein llawenydd ni
Oedd y gân ddydd ei geni,
Ac yn ei haul, Gwennan Haf
Ddaeth a'r llawenydd eithaf;
Dod â'i gwen i'n byd i gyd
A Haf trwy'r flwyddyn hefyd.

Ni bu trysor rhagorach
Na gwên fwy na Gwennan fach,
Â'i thegwch cyfoethogodd
Bob ennyd o'n byd, o'i bodd;
Rhannu wrth wenu wnai hi,
A'n cynnal yn ein cyni.

Yr oedd hi trwy'r awr dduaf
Yn llawen fel heulwen haf,
Ac yn awr mynegwn ni
Heddiw ein diolch iddi
Am roi gwefr ym miri'i gwedd
Am lenwi ein pum mlynedd.

Gwyddwn trwy eiriau'n gweddi
Mai'n y Tad mae'i henaid hi,
Ond ni all hyn wneud yn llai
Y galar a'n disgwyliai;
Na chwaith y tristwch eitha:
Non a Steve yn dweud "Nos Da".



Llun: Robin Griffiths

# Y gŵr

**Cafodd Piero Fama ei eni a'i fagu ar Ynys Sisili. A mae'n gallu siarad Cymraeg. Gwilym Roberts fu'n holi.**

Mae Piero Fama yn berchennog siop Glanhau Dillad yn Heol Severn yn Nghreganna. Mae'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl am fod ganddo nain o Batagonia.

Pan es i i mewn i'r siop i'w weld fe welais gopi o'r Dinesydd ar y cownter, ynghyd â chyfarwyddiadau Bwrdd yr Iaith ar gyfer busnesau a chopi o'r llyfr Y Wladfa Gymreig (R. Bryn Williams)

Ces groeso cynnes gan Piero ac yng nghanol ei brysurdeb dechreuais ei holi am ei gefndir. Roedd wedi cael ei eni a'i fagu ar Ynys Sisili. Fe fu ei daid o ochr ei dad yn feddyg yn Ariannin am ddwy flynedd ac yn ystod y cyfnod hwnnw priododd â Myfanwy Jenkins o Gwm Hyfryd yn Yr Andes.

Fe symudon nhw wedyn i fyw i Sisili, tu allan i ddinas Messina. Fe gawson nhw ferch o'r enw Aida a phriododd hi â doethur mewn gwyddoniaeth sef Giovanni a buon nhw'n byw yn nhre Taormina ac yno y buodd Piero yn byw am dipyn, ond yn ystod yr Ail Ryfel Byd fe fu bomio ffyrnig ar Sisili ac yn arbennig ar Taormina a rhwng 1940 a diwedd y rhyfel bu Piero yn byw hefo'i nain a'i daid allan yn y wlad. Fe gâi Eidaleg, Sbaeneg a

# amlieithog o Sisili

Sisilieg eu siarad ar yr aelwyd, ond pan oedd Piero ar ei ben ei hun efo'i nain siaradai hi ychydig o Gymraeg ac ennyn ei ddiddordeb yn yr iaith. Roedd y Sisiliaid yn meddwl eu bod yn siarad Almaeneg gan nad oedden nhw wedi clywed sôn am yr iaith Gymraeg.

Ar ddechrau'r saithdegau daeth Piero i Lundain a chyfarfod â merch o Landaf ac ar ôl priodi daethon nhw i fyw i Gaerdydd ac agor tŷ bwyta ym Mhontcanna sef yr hen "Harvesters". Ond fe adawson nhw'r lle hwnnw er mwyn agor tŷ bwyta yn Y Bont-faen sef "Basil's". Newidiodd gyfeiriad wedyn ac agor Siop Glanhau Dillad yn Severn Road. Dyma fe o'i blaen hi yma.

Ailgydiodd yn ei Gymraeg drwy fynd ar Gwrs Cymraeg Chris Rees dan nawdd y Brifysgol yn Heol y Parc a daeth yn rhugl yn yr iaith. Mae ganddo lawer o gwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg ac mae e wrth ei fodd yn siarad â nhw er mwyn iddo gael ymarfer ei Gymraeg.

Mae e wrth ei fodd yn treulio penwythnosau yn ei garafan yn Nhrefdraeth ac yno mae'n cael mwy o gyfle i ymarfer ei Gymraeg. Dydy e erioed wedi bod ym Mhatagonia (fel y dywedwyd mewn stori yn yr Echo beth amser yn ôl), ond mae'n gobeithio ymweld â'r lle cyn diwedd ei oes.

Cofiwch alw heibio i Piero a mynnwch siarad Cymraeg ag e. Os byddwch chi'n bwriadu bod yn gwsmer, ac os bydd copi o'r Dinesydd dan eich braich, mae'n fwy na phosib y cewch chi ostyngiad!

**D**

*Yn y llun gwelir (o'r chwith i'r dde) - Cefn: B D Harries, Janet Parry-Jones, Liz Shone, Alys Jones, Non Davies, Bob Roberts, Mallt Anderson, Gwynfa Adams, Robin Jones. Blaen: George Owen (Cynhyrchydd), Ann Jones.*



*Llun trwy garedigrwydd Robin Griffiths*

CELFYDDYDAU

# Tipyn o ddwy ddrama

AR 31 Mawrth perfformiodd Cwmni Drama'r Crwys 'Troeon' sef trosiad Mallt Anderson a B. Harries o *Dangerous Corners* (J B Priestley) yn neuadd Capel y Crwys.

Cafwyd caniatâd i berfformio'r ddrama yn ystod yr haf a chaniatad llafar i'w pherfformio, ond wythnos cyn y perfformiad, daeth y cwmni at droeon lletchwith. Am fod y ddrama (gyda chwmni proffesiynol) yn gwneud mor dda yn Llundain, penderfynwyd mynd â hi ar daith a bydd yn y New Theatre yn y man.

Canlyniad y llwyddiant hwn fu tynnu'r caniatâd yn ôl, a'r cwmni'n barod i berfformio. Y Chichester Festival Theatre oedd â'r hawl i roi caniatâd, ond yn y diwedd cafwyd caniatâd y Cyhoeddwr, Samuel French i roi un perfformiad yn unig., yr unig berfformiad tu allan i Lundain.

Bwriada'r cwmni fynd â'r ddrama i Eisteddfod Genedlaethol Bae Colwyn gan iddo gael caniatâd arbennig i wneud hynny ac mae gobaith y gwelir ef yn y Crwys ym Medi. **D**

# Fflicio'r bêl i'r rhwyd



*Mae Ysgol Coed-y-gof yn ymddiddori'n fawr mewn pel-droed, ac fe dderbyniodd nawdd hael gan Gwmni Teledu Fflic i brynu dillad pel-droed newydd. Teimlai mai da o beth fyddai i ddarlenwyr y Dinesydd eu gweld yn eu gwisg newydd. A dyma nhw. Yn y llun, mae'r tîm gyda Gwenda Griffiths, y gyfarwyddwraig ac Ali Yasdsine sy'n un o ser y cwmni. Mae Ali'n medru siarad Cymraeg yn rhugl.*

**Nid pêl-droed yn unig sy'n denu plant Ysgol Coed-y-gof. Mae'r eisteddfod flynyddol yn bwysig yn y calendr ac eleni testun cystadleuaeth y gadair oedd "Dychryn". Dywedodd y beirniad bod y safon yn uchel ond dyma'r tair cerdd a ddaeth i'r brig:**

## Dychryn

Syllu ar y wal
Wal sy'n llawn o gysgodion y nos
yn dawnsio'n wyllt
i chwibanu'r gwynt.
Y cwilt yn siffrwd,
Siffrwd dan awel y nos.

Ond ust!
Daw swn cnocio o'r ffenestr.
Cnocio, cnocio.
Beth sydd yna?
Beth sydd yna?
Sgerbydau gwyn yn chwarae'n wallgof
ar sil y ffenestr.

Rhywbeth yn cropian i fyny'r grisiau
cropian yn gyfrwys.
Y drws yn agor yn sgrechlyd.
Bwgan, anghenfil.
Help!
Diflannodd y cysgodion.
Mae pob man yn ddu.
Gobeithio daw'r bore cyn hir.

**Elin Nash**
**(Ail wobr)**

Rwy'n cael fy nychryn
Wrth feddwl rhaid im fadael â'r hen fyd,
Rhyw ddiwrnod byddaf yn uwch na'r cymylau
Heb fywyd, heb gorff.

Mae'n rhoi iasau imi wrth feddwl
Rhyw ddiwrnod byddaf heb fam, na thad,
Heb ofal yn y byd mawr, unig.
Heb gariad mwyn rhieni.

Rhyw ddydd carreg fyddaf i, yn y fynwent.
Enw, dim teimlad, dim emosiwn.
Enw ar garreg fedd oer.
Neb yn malio. Neb yn deall

**Manon Jones**
**(Bardd y gadair)**

Cerdded drwy'r stryd ddu
Yn y nos a gweld
Dyn hen yn eistedd
Ar lawr brwnt, dwylo du
Yn gafael mewn potel fawr wydr.

Wyneb yn ddu fel y nos
Cot wedi rhwygo ar y top,
Llygaid glas yn disgleirio
Yn y nos.

Rhedais adref ar frys
a chau'r drws.
Rhedais o dan y gwely.

**Andrew Davies**
**(Trydedd wobr)**

## Symud Tŷ

Pacio popeth heblaw'r sinc
I'r fan fradychus.
Dwylo yn chwifio
Dagrau yn rhuthro
A'r ci yn siglo ei gwt.

Cyrraedd ty newydd dieithr,
Dadlwytho'r dodrefn.
Wynebau yn syllu
Calonnau yn suddo
A'r ci yn siglo ei gwt.

Ac wrth gynefino
Daw pethau yn gliriach.
Y teulu yn setlo
Bywydau yn gwella
A'r ci yn siglo ei gwt.

**Rhian Bowker**
**Ysgol Glantaf**

**This month's feature for learners of Welsh looks at describing a person's character.**

# Sut un ydych chi?

Ydych chi'n nabod Sion a Sian?

Sut un ydy e/hi?

Pa fath berson ydy e/hi?

Weithiau bydd angen i ni roi ateb byr a chyflym i gwestiynau fel hyn. Dydy dewis un gair i ddisgrifio person ddim yn deg mewn gwirionedd, ond dyna sy'n digwydd! Dyma atebion posibl:

| | | |
|---|---|---|
| **Mae e/hi** | **'n** | **ddymunol** |
| **Dydy e/hi ddim** | **yn** | **hyderus** |
| | | **egniol iawn** |
| | | **gwrtais iawn** |
| **Mae e/hi** | **'n** | **gymeriad dymunol** |
| **Dydy e/hi ddim** | **yn** | **berson hyderus** |
| | | **wraig/fenyw/ferch hoffus** |
| | | **wr/ddyn/fachgen cwrtais** |
| **Mae e/hi** | **'n** | **hynod o garedig** |
| | | **eitha ystyriol** |

Fe edrychwn ni ar rinweddau (virtues) pobl i ddechrau.

Defnyddiwch eiriadur i ddod o hyd i ystyr y geiriau nad ydych yn eu nabod.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **diddorol** | **gweithgar** | **creadigol** | **hael** | **dymunol** |
| **galluog** | **rhwydd** | **cymwynasgar** | **hyfryd** | **dawnus** |
| **naturiol** | **didwyll** | **hoffus** | **pwyllog** | **egniol** |
| **amyneddgar** | **tyner** | **gofalus** | **brwd** | **caredig** |
| **doniol** | **trefnus** | **bywiog** | **sensitif** | **ffraeth** |
| **hyderus** | **hwyliog** | **call** | **hapus** | **ystyriol** |
| **byrlymus** | **cwrtais** | **cymdeithasol** | | |

Yn eich barn chi, sut un ydy'r prifathro delfrydol (ideal)? Ai'r un pethau sy'n gwneud nyrs dda?

Os ydych eisiau bod yn feirniadol o (critical of) rywun bydd y geiriau hyn yn ddefnyddiol:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **hunanol** | **anystyriol** | **ffroenuchel** | **diog** | **cyfrwys** | **creulon** |
| **haerllug** | **anonest** | **anghwrtais** | **cas** | **cenfigennus** | **diflas** |

Unwaith eto, chwiliwch am y geiriau anghyfarwydd (unfamiliar) mewn geiriadur.

Mae'r geiriau yma yn ddefnyddiol hefyd wrth ddisgrifio person.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **anghofus** | **dibrofiad** | **swil** | **nerfus** | **sinigaidd** | **ofnus** |
| **tawedog** | **swnllyd** | **trist** | **unig** | **emosiynol** | **byrbwyll** |

Ydych chi'n nabod eich hun? Pa eiriau mae pobl yn eu defnyddio i'ch disgrifio chi, tybed? Dyna gwestiwn i chi! Sut rydych chi'n sgorio ar y cwestiynau canlynol? Cofiwch fod yn onest!

Ydych chi'n ystyriol neu'n anystyriol? (considerate/inconsiderate)

Ydych chi'n bwyllog neu'n fyrbwyll? (deliberate/impulsive)

Ydych chi'n gymwynasgar neu'n hunanol? (Kind, helpful/selfish)

Ydych chi'n gwrtais neu'n anghwrtais? (polite/impolite)

Ydych chi'n amyneddgar neu'n ddi-amynedd? (patient/impatient)

Ydych chi'n weithgar neu'n ddiog? (diligent/lazy)

Ydych chi'n ddoeth neu'n annoeth? (wise/unwise) **D**




**GYDAG ALUN A MAIR TREHARNE**

# Lansio clwb newydd

Cafodd clwb newydd sbon ar gyfer dysgwyr ei lansio ddydd Sadwrn 29 Ebrill yng Nghanolfan Iaith Acen, Stryd y Bont.

Cynhelir cyfarfodydd bob dydd Sadwrn rhwng 11.00am a 2.00pm er mwyn rhoi cyfle i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg a chymdeithasu yn y Gymraeg.

Mae'r cyfarfodydd yn anffurfiol a chroesewir plant. Felly, os bydd angen cwpanaid o de arnoch tra'n siopa yng Nghaerdydd, galwch heibio!

Mae pob aelod o Glwb Acen yn cael ardiau aelodaeth fydd yn caniatáu iddynt hawlio gostyngiad ar nwyddau a werthir gan gwmnïau yng Nghaerdydd sy'n rhan o'r cynllun.

clwb acen
Clwb Newydd i Ddysgwyr
yng Nghanol y Ddinas
Ardal Caerdydd a'r Cyffiniau
**Bob Dydd Sadwrn, Rhwng 11.00am a 2.00pm**
- Dim Tâl Aelodaeth
- Cynllun Gostyngiadau ar Nwyddau Cymraeg
- Cyfarfodydd Anffurfiol
- Gweithgareddau Arbennig Bob Mis

Hefyd, cyrsiau i ddysgwyr ac Ysgol Haf. Ffoniwch am fanylion.

Galwch i mewn am sgwrs a phaned
**Croeso i bawb (a phlant!)**

cia CANOLFAN IAITH ACEN
**Canolfan Iaith Acen**
**Tŷ Ifor, 1 Stryd y Bont,**
**Caerdydd, CF1 2TH**
**(01222) 655455**




# Ceri yn ymateb a'r gwaith

Ar ôl cyflawni cyfres o swyddi heb ddefnyddio'i Chymraeg, o'r diwedd mae Ceri Harries yn ei helfen. Mae'n gweithio fel ysgrifenyddes ddwyieithog i gwmni cyfreithiol mwyaf Cymru, Hugh James Jones & Jenkins, yn ei bencadlys yn Nghaerdydd.

"Ces i dipyn o sioc ar y dechrau," meddai - mae hi wedi bod wrthi am ryw naw mis erbyn hyn - "O'n i ddim wedi defnyddio fy Nghymraeg ryw lawer ar ol i fi adael yr ysgol. Dyma fi wedyn ar ganol swyddfa brysur, yn teipio nerth fy mysedd, tra'n ateb y ffôn, ac ar yr un amser derbyn cyfarwyddiadau 'wrth ryw gyfreithiwr neu'i gilydd. Ond nawr dwi wedi dysgu ymdopi, a dwi wrth fy modd gyda'r gwaith."

Ni ddaeth Ceri, 22 oed, o hyd i'w galwedigaeth ar amrantiad. Ar ôl gadael Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a lefelau O i'w helw, bu'n gweithio i gwmni dosbarthu cwrw, y Swyddfa Trethi a siop amladran yng Nghaerdydd. "O'n i ddim wedi gweithio fel ysgrifenyddes o'r blaen, ac o'n i ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl."

Fel rhan o'i hyffordiant, mae hi wedi adeiladu ar sail ei theipio ysgol ac nawr mae ganddi RSA Safon 1 Cymraeg a Saesneg.

Ond nid teipio yn unig ydy gwaith Ceri. Weithiau mae'n helpu ar y switsfwrdd, lle mae ei medr dwyeithog yn destun gwerthfawrogiad gan lawer un sy'n galw. Rhaid wrth wybodaeth helaeth o arbenigrwydd pob cyfreithiwr a gweithredwr cyfreithiol ar gyfer y gwaith hwn.

Ond hefyd, mae ganddi waith parhaol o bwys mawr yn rhaglen gofal cleientau Hugh James. Hi sy wrth y "Ddesg Negeseuon". Sawl gwaith mae dyn wedi ffonio cwmni mawr, gofyn am rywun, a wedyn cael ei drosglwyddo i ffôn arall a gorfod gwrando ar hwnnw yn canu yn ddiderfyn heb gael ei hateb? Yn Hugh James, os nad ydy'r ffôn yn cael ei hateb yn gyflym mae'r alwad yn cael ei throsglwyddo i Ceri sy'n gallu cymryd y neges a sicrhau ei bod hi'n cael ei hateb mewn byr o dro.

Ac mae ei medr dwyieithog yn cael ei werthfawrogi yn hynny o beth, hefyd. **D**


## YN EISIAU

### TIWTORIAID I DDYSGU CYMRAEG I OEDOLION GWENT

Oherwydd y twf aruthrol yng Ngwent, bydd angen nifer fawr o diwtoriaid newydd ar gyfer Medi 1995. Gwahoddir ceisiadau gan diwtoriaid â phrofiad **ond** yn ogystal, croesewir ceisiadau oddi wrth unrhywun **brwfrydig** sydd â diddordeb, gan y cynigir hyfforddiant yn rhad ac am ddim.

***Telir tiwtoriaid ar raddfa £14.17 yr awr***

**Y cymhwyster pwysicaf yw BRWDFRYDEDD!**

Ceisiadau trwy lythyr at:
Geraint Wilson-Price, Trefnydd Cymraeg i Oedolion,
Coleg Yr Hill, Pen-y-Pound, Y Fenni, Gwent, NP7 7RP.
Ffôn: 01873 855221

## Swyddogion/Arolygwyr Diogelwch Cymraeg

**Caerdydd**

Yn ddiweddar rhoddwyd y contract i ymgymryd âr gwasanaeth diogelwch ym Mhencadlys BBC Cymru yn Llandaf i Securiplan Plc. Rydym yn awyddus i recriwtio personél – dynion a merched – sy'n meddu ar sgiliau ysgrifenedig a chyfathrebu o'r radd flaenaf ac sydd yn siarad Cymraeg yn rhugl i ategu'n gwasanaeth ar y safle hwn.

Rydym yn cynnig:-

- Graddau cyflog rhagorol
- Hyfforddiant trylwyr
- Cyfleoedd i ennill cymwysterau cydnabyddedig
- Gwisg lawn
- Ymrwymiad i chi wrth ddatblygu'ch gyrfa

Rhaid i chi allu darparu manylion cynhwysfawr o'ch holl gyfnodau gwaith/diwaith blaenorol a rhaid i chi fod yn barod i weithio gwaith sifft.

Am fwy o wybodaeth ac i drafod trefniadau cyfweliad, ffoniwch: (0272) 558358 neu (0792) 459077.

Mae Securiplan Plc yn gyflogwr cyfle cyfartal.

securiplan

## Cynorthwy-ydd Dwyieithog Swyddfa Gyffredinol (Cymraeg / Saesneg)

*Contract Sefydlog am Ddwy Flynedd, Ystod Cyflog £9,158 hyd at £10,038*

Mae Tai Cymru'n gweithio gyda thenantiaid, cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol i wella'r dewis o gartrefi o safon uchel sydd ar gael i bobl mewn angen.

Mae ein Swyddfa Gyffredinol yn darparu gwasanaeth i staff, ymwelwyr, cymdeithasau tai a'r cyhoedd. Fel Cynorthwy-ydd Swyddfa Gyffredinol bydd eich dyletswyddau yn cynnwys darparu cymorth yn y dderbynfa (switsfwrdd teleffôn/croesawu ymwelwyr), trafod post mewnol ac allanol, llungopio a dyletswyddau ffeilio archifau.

Dylech fod â phrofiad sawl blwyddyn o weithio mewn swyddfa brysur fel rhan o dîm, yn delio â'r cyhoedd ac o natur aeddfed a siriol. Mae gwybodaeth dda o'r Gymraeg a'r Saesneg ar lafar ac yn ysgrifenedig yn bwysig iawn. Mae sgiliau keyboard yn ddymunol.

Am ragor o wybodaeth a ffurflen gais cysylltwch â Beryl Thomas yn y cyfeiriad isod. Y dyddiad cau ar gyfer dychwelyd ceisiadau yw Mai 25ain 1995.

Mae Tai Cymru wedi'i ymrwymo i bolisiau cyflogaeth deg. Rydym yn anelu at gyfle teg yn ein holl drefniadau dewis, penodi a rheoli. Mae cyfleusterau mynediad a gweithio rhagorol yn ein swyddfeydd yn Llanisien, ar gyfer pobl sydd ag anableddau corfforol.

**TAI CYMRU**
**HOUSING FOR WALES**
25-30 Lambourne Crescent, Llanisien,
Caerdydd, CF4 5ZJ. Ffôn: 01222 741500

Awdurdod Afonydd Cenedlaethol

# TELEFFONYDD/ DERBYNNYDD

Llaneirwg, Caerdydd — o £7278 yn ôl profiad

Contract adnewyddol am gyfnod penodol tan 31 Mawrth 1996 i ddechrau

Fel yr asiantaeth fwyaf blaenllaw yn Ewrop sy'n diogelu'r amgylchedd, mae'r Awdurdod Afonydd Cenedlaethol yn gyfrifol am warchod a gwella pob agwedd ar ein hamgylchedd dŵr.

Mae'r swydd hon yn gyfle diddorol i weithio ar switsfwrdd prysur. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gallu gweithio mewn ffordd hyblyg, a bydd ganddo ef neu hi natur allblyg a chyfeillgar, ac ymrwymiad i fodloni cwsmeriaid.

Ymhlith y buddiannau bydd pensiwn drwy gyfrannu, cantin sy'n cael cymorth ariannol, a thâl yn gysylltiedig â pherfformiad.

Byddwch cystal â ffonio (01222) 770088 am ffurflen gais a disgrifiad o'r swydd, gan ddyfynnu'r Cyfeirnod Swydd WK019.

**Dyddiad cau: 19 Mai 1995**

Mae'r AAC wedi ymrwymo i ddarparu cyfle cyfartal

AAC

Rhanbarth Cymru

---

Cardiff Tertiary College

COLEG GLAN HAFREN

Mae Coleg Glan Hafren, Coleg Trydyddol Caerdydd, yn goleg deinamig sy'n tyfu ar hyd yr amser er mwyn cwrdd ag anghenion dros chwe mil o fyfyrwyr amser llawn a rhan amser ar fwy na dau gant o gyrsiau addysg bellach ac addysg alwedigaethol.

## Tiwtor Datblygu'r Gymraeg ar gyfer Medi 1995

## Cyflog ar raddfa hyd at £21,135

Mae'r Coleg yn bwriadu creu swydd newydd, heriol a fydd yn brif gymorth iddo ddatblygu'i bolisi Cymraeg yn llwydddiannus. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am ddatblygu Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol yn y Coleg at ddibenion staff a myfyrwyr yn ogystal â darparu ar gyfer yr arholiadau TGAU a lefel A arferol. Bydd y gwaith datblygu'n golygu canfod lle'n union y gallai'r Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Cymraeg fod o gymorth a threfnu gyda thimau'r cyrsiau ar gyfer ei gyflwyno. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn gyfrifol am ddatblygu adnoddau ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol ac adnoddau ar gyfer gwasanaethau dwyieithog a gyflwynir gan staff eraill yn y Coleg.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus radd yn y Gymraeg a phrofiad o ddysgu'r iaith yn llwyddiannus i amryw o lefelau. Bydd gwybodaeth o ofynion Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol a TDLB hefyd o gryn fantais.

Am ffuflen gais a phecyn gwybodaeth, anfonwch amlen fawr wedi'i chyfeirio, a stamp (ni dderbynnir unrhyw geisidau dros y ffôn) at: Fiona Robinson, Swyddog Personél, Coleg Glan Hafren, Trowbridge Road, CAERDYDD CF3 8X7.

**Y DYDDIAD CAU ar gyfer derbyn ceisiadau yw 18 Mai 1995.**

---

CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU · THE ARTS COUNCIL OF WALES

# SWYDDI YSGRIFENYDDOL

**Bangor/Colwyn - Amser-llawn**
**Caerdydd - Rhan-amser**

Rydym yn chwilio am ysgrifenyddion profiadol â sgiliau cyfathrebu a threfnu o'r radd flaenaf. Lleolir y swydd amser-llawn yn swyddfa'r Cyngor YNG NGOGLEDD CYMRU sydd ar hyn o bryd ym Mangor. Mae'r swydd ran-amser (22 awr yr wythnos) yng Nghaerdydd mewn UNED RYNGWLADOL newydd a fydd yn agor cyn hir am gyfnod prawf o ddwy flynedd. Mae'r raddfa gyflog amser-llawn yn codi hyd at £12,396 (£6.42 yr awr); £7,438 yw'r cyflog cyfatebol rhan-amser.

Rydym hefyd yn edrych am weithredydd prosesydd geiriau medrus i weithio 22 awr yr wythnos yn yr ADRAN CELFYDDYDAU PERFFORMIO yn ein swyddfa yng Nghaerdydd. Mae'r raddfa gyflog ran-amser yn codi hyd at £6,305 (£5.44 yr awr).

Noder: Mae'n bosibl y bydd y cyflogau hyn yn codi o ganlyniad i ddyfarniad cyflog 1994 na chytunwyd arno eto. Mae cynllun pensiwn cyfraniad-isel ar gael i holl staff y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Ceir manylion pellach am y swyddi hyn, gan gynnwys eu gofynion ieithyddol, ynghyd â ffurflen gais gan Mrs Jane Gotts, Cyngor Celfyddydau Cymru, 9 Stryd yr Amgueddfa, Caerdydd CF1 3NX. Dyddiad olaf derbyn ceisiadau am y swyddi: 31 Mai, 1995.

*Mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru bolisi Cyfle Cyfartal ar gyfer recriwtio.*
*Mae'n croesawu'n gynnes geisiadau o bob carfan o'r gymdeithas.*

YN GADARN O BLAID POBL ANABL




GYDA
**TOM DAVIES**

# Arweinydd o ben draw'r byd

RHAID gofyn i Alec Evans a ŵyr sut y cafodd ei gyfenw: mae gwir angen mwy na chysylltiad cyfenwol â'r wlad cyn bod yn hyfforddwr ei thim cenedlaethol, ond nid anghytunais yn llwyr â'i benodi - amau, dyna'r cyfan.

Bu yma ers tair blynedd, a Chymry yw ei ddau gonorthwywr, a Chymro Cymraeg yw Cadeirydd Pwyllgor Hyfforddi'r tim cenedlaethol. Cyhoeddwyd carfan o 32 i baratoi ar gyfer Cwpan y Byd ac yr oedd yn rhaid ysgrifennu cyn gwybod pa chwech fyddai ymhlith y 26 i ymweld a De Affrig. Dyma'r rhai a ddewiswn i: o'r olwyr - Steve Ford, Adrian Davies a Wayne Proctor, ac o'r blaenwyr - Hemi Taylor, Meic Griffiths a Garin Jenkins. Ond ni chredaf fod Emyr Lewis na Lyndon Mustoe yn ddigon da i chwarae dros y wlad, ac yn sicr nid Neil Jenkins fyddai'r maswr yn fy nhim i. Da gweld enw David Evans ymhlith yr olwyr, a hwnnw a ddylai fod y maswr cyntaf yn Ne Affrig, er iddo gael ei ddewis fel canolwr neu faswr. Mae tri maswr addawol gennym - Lyndon Griffiths (Abertawe) a'r ddau o glwb Castell-nedd, Mathew McCarthy ac Arwel Thomas, ac o'r rhain, McCarthy yw'r gorau - dylai ef hefyd fod yn y garfan. Amser cyffrous sydd o'n blaenau.

**D**

# Cicio yn uwch

ER MIS Hydref '94 mae Clwb Pel-droed Uwchradd yr Urdd wedi bod mewn bodolaeth (gweler llun). Wedi llwyddiant y clwb cynradd, penderfynwyd sefydlu clwb ar gyfer bechgyn blynyddoedd 7 ac 8 Glan-taf. Mae'r clwb wedi llawn sefydlu bellach efo dros ddeunaw o fechgyn yn mynychu'r clwb bob bore Sadwrn ar feysydd Llandaf.

Bu'r clwb yn ffodus iawn derbyn nawdd i dalu am y dillad gan gwmni argraffu PPS, Ystum Taf. Hoffwn ddiolch iddyn nhw am eu parodrwydd i estyn cymorth i'r clwb.

Mae'r Clwb Cynradd yn dal i fynd o nerth i nerth efo carfan fawr o fechgyn yn ymarfer bob bore Sadwrn ar Feysydd Llandaf. Ym mis Ebrill aeth 45 o'r aelodau i weld Everton yn chwarae yn erbyn Blackburn Rovers, a chynhaliwyd Cwrs Hyfforddi dau ddiwrnod yng ngwyliau'r Pasg ar gyfer aelodau'r Urdd yn y sir. Hoffwn ddiolch i Gary Lewis am ei gefnogaeth i gynnal y clwb.

**Gwilym Roberts**



# Campau Glantaf

★ YM MYD pel-fasged mae'r tim dan 13 wedi dod yn bencampwyr De Morgannwg ac mae'r tim dan 15 wedi ennill Cynghrair Ysgolion Caerdydd. Fe ddaeth y tim dan 16 yn ail yng Nghystadlaethau Cwpan Cymru. Mae Ffion Tudur wedi cynrychioli Cymru yn y tim dan 16 yn erbyn Iwerddon, Lloegr a'r Alban.

★ Ym myd rygbi, pan luniwyd y nodiadau hyn, roedd y tim dan 13 oed ar gyrraedd y rownd derfynol yng nghystadleuaeth Cwpan Ysgolion Caerdydd a Chystadleuaeth saith bob ochr Parc Rosslyn yn Llundain.

Mae Dafydd Beasley, Andrew Griffiths a Robert Lord ar fin cynrychioli tim A Cymru i rai dan 16 oed. Mae Andrew Grabham a Matthew Williams ar gynrychioli ysgolion Cymru yn eu gem yn erbyn Lloegr.

★ Mae Sarah Marks wedi cael ei dewis i garfan De Morgannwg pel-rwyd i rai dan 21, ac mae Sara Bowen wedi cael ei dewis i garfan Cymru dan ddeunaw.

**Daw S4C â holl rialtwch a sbri, hwyl a chystadlu Eisteddfod Bro'r Preseli i gartrefi Cymru**

**O Brifwyl Ieuenctid Fwyaf Ewrop Eisteddfod yr Urdd**

**S4C**

# Celtiaid ynghyd




AR 5 Ebrill yn Ystafell Ballinger, Llyfrgell y Ddinas, traddodwyd darlith ar "Y Newyn Mawr" (sef y newyn tatws) yn Iwerddon ym mhedwardegau'r ganrif ddiwethaf gan y Dr Harri Pritchard-Jones, un sydd a bywyd Iwerddon yn agos iawn at ei galon. Cafwyd darlun craff ganddo o'r cyfnod anodd hwn, ynghyd â chip ar Iwerddon trwy lygaid rhai o lenorion Cymraeg y cyfnod.

Ar nos Wener 9 Mehefin traddodwyd darlith Wyddeleg gan y Tad Diarmuid O Laoghaire,S.J. ar y testun "Llenyddiaeth newydd yn y Gymraeg yn ein hamser ni".

Ar fore Sadwrn 10 Mehefin cynhelir cynhadledd undydd 'Le Visage Linguistique' - Dwyieithwrydd yng Nghymru yn y Llyfrgell Ganolog yng Nghaerdydd. Nodyn i'ch dyddiadur ydy hwn. Ceir mwy o hanes y gynhadledd bwysig hon yn rhifyn Mehefin o'r Dinesydd. Cewch fanylion gan Comhluadar Caerdydd, 116 Stryd Brunswick, Treganna, Caerdydd CF5 1ln.

Ar fore Sul 11 Mehefin dethlir yr Offeren yn y Wyddeleg yn Eglwys babyddol Sant Padrig, Gerddi'r Grange, Grangetown. Yr offeiriad fydd y Tad Diarmuid O Laoghaire, S.J. Mae croeso i bawb.

**D**



# Cwrs animeiddio

BETH amser yn ôl trefnwyd am y tro cyntaf yn Ne Morgannwg gwrs animeiddio cynradd yr Urdd yng Nghan-olfan Chapter. Bu'r ymateb i gwrs dau ddiwrnod yn wych. Cafodd y plant gyfle i ddysgu technegau sylfaenol animeiddio. Y bwriad nawr yw trefnu mwy o gyrsiau tebyg yn ystod gwyliau a'u cynnal y tro hwn yng Nghanolfan yr Urdd. Aron Evans ac Owen Stickler a drefnodd y cwrs llwyddiannus.

Dyma lun o'r rhai fu'n cymryd rhan.


**BRYN TERFEL**




"HAFAN GOBAITH/ ANOTHER DAY"
CD a Caset sengl
DWYIEITHOG
NEW BILINGUAL
CD/Casette single
ER BUDD HOSPIS
"HOPE HOUSE"

**CRYNO DDISGIAU CLASUROL NEWYDD AR LABEL SAIN**

REBECCA EVANS (SOPRANO)
ARTHUR DAVIES (TENOR)
MIRIAM BOWEN (SOPRANO)
SUSAN BULLOCK (SOPRANO)
LOUISE JONES (FFIDIL)

AR GAEL YN EICH SOP LLEOL, NEU DRWY'R POST (CATALOGUE £3.50)

SAIN LLANDWROG CAERNARFON
GWYNEDD LL54 5TG (01286) 831.111

**WELSH PROMS 95**

Y DEGFED TYMOR

CYFARWYDDWR ARTISTIG : OWAIN ARWEL HUGHES

**13-22 GORFENNAF 1995**

SAITH CYNGERDD HAF
GYDA
PRIF GERDDORFEYDD PRYDAIN

RHAGLENNI'N CYNNWYS CERDDORIAETH GAN BEETHOVEN, PROKOFIEV, VERDI, RACHMANINOV, ELGAR A VAUGHAN WILLIAMS

CYNGHERDDAU'N CYNNWYS NOSON OPERA, NOSON I'R TEULU NOSON OLA'R PROMS


*AM FANYLION, CYSYLLTWCH Â SWYDDFA GYHOEDDUSRWYDD NEUADD DEWI SANT AR 01222 342611*

**Neuadd Dewi Sant**

Swyddfa Docynnau ☎ (01222) 371236

# CROESAIR AP LEWSYN

## Rhif 144 Mai1995



**AR DRAWS**

6. Croesodd hon o'r Cyfandir a thrawsleddiannu'r wlad hon flynyddoedd o flaen y Normaniaid. (7,6)
8. Y gwaelod sydd i'r graig yng Nghwm Tawe. (1,5)
9. Dysgai L.O. mewn amrywiol academïau bychan o'r fath. (8)
10. Dai yn ol am dipyn. (3)
11. Ai hwn oedd y cyntaf i ganu "Mae 'nghariad i'n Fenws?" (6)
12. Rhesymau gwantan am fethiant. (8)
14. Draenog sy'n gwneud bwlch dwfn. (7)
16. Iaith o Frest. (7)
20. Perorasiwn efallai. (8)
23. Yr adeg pan ddaw'r afon allan dros y llwybr. (6)
24. Mab fy mrawd yw Ian. (3)
25. Byddaf yn ei weindio... (8)
26. ... fel bo hwn yn dal i dipian. (6)
27. Sir y Fflint yng Nghymru, er enghraifft. (6-7)


**I LAWR**

1. Un o benwaig Nefyn yn y Sowth. (8)
2. Dai Elias i ddatsain. (8)
3. Y bri na chaiff y proffwyd gan ei gyd-wladwyr. (7)
4. Ansoddair sy'n addas i drellan enwog y Rhos. (6)
5. Soprano yn y Nefol Gor. (6)
6. Tipyn o gybydd yw Sion o'r frawdoliaeth hon. (5,1,7)
7. Gwesteion! Deg ddaw o ginio H gan simsanu. (13)
13. Bwyd y duwiau — y rhai blaenaf ohonynt. (3)
15. Blodeuyn yw ei lygad. (3)
17. Cystadlu. (Post scriptum i Gymry ar chwâl). (8)
18. Ar ôl cael un darn i'w le, mae'r A.A. yn medru trwsio'r gwahanol dameidiau i gyd. (8)
19. Mesurau sy'n penderfynu amledd dirgryniadau yn y galod. (7)
21. Ennill bri i Ogwen mewn ffordd arall. (6)
22. Fe ddaru. (6)

*Datrysiad at Ap Lewsyn, 13 Rannock Drive erbyn 20 Mai, os gwelwch yn dda. Bydd tocyn llyfrau gwerth £5 yn wobr i'r datrysiad cywir cyntaf a ddaw o'r het. Ymddiheurir am letchwithdod y misoedd a aeth heibio ond rydyn ni'n ol i drefn erbyn hyn.*

*Cystadleuaeth Rhif 143: Yn anffodus cambrintiwyd patrwm y sgwâr, gan wneud dau sgwar a ddylai fod yn wyn yn ddu ac un a ddylai fod yn ddu yn wyn. Fodd bynnag, yr oedd yr hen ddwylo o blith y datryswyr yn cofio'r egwyddor fod Croesair y Dinesydd bob amser yn symetrig o gwmpas ei ganolbwynt. Yr oedd rhif y llythrennau a roddir ar ôl pob clw yn arwain i'r un casgliad. Felly, derbyniwyd wyth ymgais hollol gywir, a'r patrwm wedi ei gywiro hefyd. Yr enw ffodus a dynnwyd oedd eiddo E. Haydn Jones, 2, Heol Wen Rhiwbeina, a mae tocyn llyfr £5 ar ei ffordd iddo. Enwa'r saith arall oedd: margaret Jones, Cyncoed; T. Arfon Owen, Y Borth, Michael Francis, Casnewydd; Buddug Roberts, Yr Eglwys Newydd; Gwenda Hopkins, Llanisien; Mairlis Davies, Rhiwbeina; a Marged Davies, Llandaf.*

**DATRYSIAD RHIF 142**



**DATRYSIAD RHIF 143**



# Gwellianau i'r iaith?




Cymraeg a Chymreig - mae'n hen ddadl, ond hyd yn ddiweddar, doedd dim rhaid iddi fod. Pan fo person yn sôn am yr iaith, rhaid iddo arfer y gair "Cymraeg", ond pan fo'n sôn am bethau ar wahân i'r iaith, y gair i'w arfer yw "Cymreig".

Roedd pobl wedi arfer meddwl mai un o adeiladau pwysicaf Caerdydd oedd y Swyddfa Gymreig. Wedi'r cyfan, mae'n ymwneud â Chymreictod (neu Gymraectod?) Cymru i gyd.

Mae cylchfan Yr Eglwys Newydd yn cael ei lledu ar hyn o bryd ac mae'r Swyddfa Gymreig wedi codi arwyddion i ddynodi hynny. A dyma ichi lun o ran o un o'r arwyddion, llun a welodd llygad camera Robin Griffiths.

A nawr rhaid i'r Dinesydd ofyn, "Oedden ni'n anghywir wedi'r cyfan?"

**D**

## HYSBYS

**ANGEN** tri person i rannu tŷ yng nghanol Caerdydd gyda un arall. 4 ystafell wely, ystafell fyw, ystafell fwyta, ystafell ymolchi gyda cawod, cegin gyda peiriant golchi, peiriant sychu, peiriant golchi llestri, oergell, rhewgell, popty meicrodon. Ardal Blackweir, 5 munud o ganol y ddinas. £160.00 y mis & treth cymuned. Tel: 01222 590615 neu 341874.

**EISIAU:** Nanny rhan-amser (25-30 awr yr wythnos) i edrych ar ôl merch fach deunaw mis, yn ei chartref yn Nhreganna.. Rhif ffôn 399161.

**GWAITH** i'w deipio? Prosesu geiriau/clywdeipio. Cysylltwch â Gwen Lloyd Aubrey, B.A., Dip. RSA, ar (01222) 881546 (ar ôl 6.30 p.m.).

**GWERSI** piano. Llefydd ar gael i blant neu i oedolion. Ffoniwch 01222 844483.

**GWYLIAU** ar y Riviera (Nice): Fflat dwy ystafell ddwbl, lolfa, cegin, ystafell ymolchi. Dau funud i'r môr a'r holl gyfleusterau. 01446 773058.

**FFURFLEN ARCHEBU HYSBYSIAD YN "HYSBYS"**

*Enw* ..............................

*Cyfeiriad* ..............................

*Rhif ffôn* .................. *Rhifyn mis* ..................

*Geiriau:*

*Cost: 25c y gair, £5 minimum. Anfonwch siec os gwelwch yn dda, yn daladwy i "Newsline", gyda'r archeb at:* ***Newsline, 24 James Street, Bae Caerdydd CF1 6EX***